| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2025 |
| **Pwnc / Testun:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) Drafft |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Cynllunio Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru<br><br>Alwyn Williams<br>Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>AlwynWilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad yma yn unol a rhan 3.4.8.4.2 o'r Cylch Gorchwyl:<br><br>3.4.8.4.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn a bydd yn ystyried p'un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. Bydd yn ystyried p'un a yw'r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu'n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a'u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod. | |

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.

2. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

3. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2024/25

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

**Paratowyd gan:** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Gorffennaf 2025

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

DRAFT

# Cynnwys

Sgôp y Cyfrifoldeb ..... 3
Y Fframwaith Llywodraethu ..... 3
Adolygu Effeithiolrwydd ..... 4
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor ..... 5
Casgliad yr Asesiad ..... 5
Datganiadau'r Swyddogion Statudol ..... 6
Materion Llywodraethiant a nodwyd ..... 8
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd ..... 8
Gwaith llywodraethu sylweddol arall yn ystod y flwyddyn ..... 11
Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2024/25 ..... 12
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..... 14
Atodiad 1 ..... 15
Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019) ..... 15
Materion Llywodraethu Sylweddol ..... 16

DRAFT

## Sgôp y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a sut mae'n cael ei ddefnyddio.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwelliant parhaus o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor cod llywodraethu corfforaethol lleol diwygiedig ym mis Mawrth 2022, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae'n diwallu gofynion rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi neud i'r strwythur pwyllgorau dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu un newid i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystod y flwyddyn wrth i Aaron Evans olynu Marc Hughes fel Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ym mis Ionawr 2025.

DRAFT

## Adolygu Effeithiolrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor;
- adolygu adborth gan Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) a'r panelau sgriwtini cysylltiedig ar y gwaith sy'n gysylltiedig ag Cyllid, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn cynnwys:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- archwilio mewnol, y mae eu gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Strategol, gan gynnwys rheoli risg, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

DRAFT

# Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

## Casgliad yr Asesiad

Mae'r tabl isod yn darparu casgliad yr asesiad ar gyfer 2024/25

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Casgliad yr asesiad |
|---|---|
| **Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol** | Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo broses glir a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cadarn ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithiol. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau'n glir o ran uniondeb ac ymddygiad moesegol. |
| **Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** | Pwrpas y Cyngor yw gwasanaethu ei drigolion ac mae hynny'n ddibynnol ar ymgysylltu â phob math o randdeiliaid yn effeithiol er mwyn cydweithio'n llwyddiannus. Mae dulliau ymgynghori ac ymgysylltu ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'n agored a chynhwysol. |
| **Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol** | Mae'r Cyngor yn gweithio â chymunedau i gynllunio a diffinio ei ddeilliannau. Wrth sefydlu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor yn ystyried y tymor hir a'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. |
| **Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu** | Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ymyraethau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gwaith ymgysylltu â chymunedau a rheoleiddwyr ac arbenigedd ei swyddogion. Mae'r dull integredig hwn yn rhoi'r cyfle gorau posib i gyflawni cymaint o'r deilliannau â phosib. |
| **Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo** | Mae gan y Cyngor strwythurau cadarn ac arweinyddiaeth effeithiol, ynghyd â staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol, i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac effeithlon. Mae polisïau a strategaethau clir yn dangos bod gan y Cyngor y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau a bod gan reolwyr ddigon o allu gweithredol. |
| **Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref** | Mae gan y cyngor system rheoli perfformiad effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn effeithlon ac effeithiol. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhan hanfodol o'r system hon ac mae wedi cael ei chryfhau yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cyngor newydd yn llwyddiannus. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA. |
| **Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio** | Mae aelodau etholedig ac uwch reolwyr y Cyngor yn gyfrifol am y penderfyniadau a'r gwasanaethau a ddarperir, ac mae archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal i gefnogi prosesau. Mae gweithgareddau'n dryloyw a dealladwy, er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystyrlon. Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol yn ystod y flwyddyn. |

## Datganiadau’r Swyddogion Statudol

| | |
|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**<br><br>Dylan Williams<br>**Prif Weithredwr** | “Fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, rydw i’n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni’n sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cynnal tryloywder, atebolrwydd a darparu gwasanaeth cyhoeddus o’r radd flaenaf.  Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol i’r sefydliad, gan weithio’n agos â’r aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid.<br><br>Rwyf yn fodlon bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a chynhwysfawr, gan eu bod wedi cael eu datblygu a’u mireinio dros gyfnod o amser i gwrdd ag anghenion y sefydliad, y gymuned a’n rhanddeiliaid wrth iddynt esblygu. Trwy ymgysylltu’n rheolaidd â phob math o randdeiliaid mewnol ac allanol, rydym wedi meithrin diwylliant o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a chydweithio agored, sy’n cryfhau’n harferion llywodraethu.<br><br>Rydym yn mynd ati’n weithgar i fonitro a chymryd camau priodol i ddatrys materion sy’n codi, gan sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu’n parhau i fod yn effeithiol ac yn ymateb i unrhyw newidiadau.<br><br>Rwyf yn ffyddiog bod ein fframwaith lywodraethu’n hyrwyddo penderfyniadau cadarn, ymddygiad moesegol, a darparu gwasanaethau effeithiol, er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau i drigolion Ynys Môn.” |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Adran 151**<br><br>Marc Jones<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)** | “Fel Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennyf gyfrifoldeb hollbwysig dros sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli a’i ddefnyddio’n briodol.<br><br>Rydw i’n fodlon bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer rheolaeth ac atebolrwydd ariannol. Trwy gynllunio ariannol diwyd, rheolaeth gyllidebol, a rheolaeth risg effeithiol, rydym yn ymdrechu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y cyngor.<br><br>Mae ein trefniadau wedi’u tanategu gan bolisïau a gweithdrefnau ariannol a dulliau rheoli mewnol cadarn sy’n cael eu hadolygu a’u diweddaru’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau a gofynion statudol.<br><br>Mae adroddiadau a gwaith craffu ariannol gan archwilwyr mewnol ac allanol yn rhoi sicrwydd annibynnol, ac rydym yn mynd i’r afael ag unrhyw feysydd gwella a nodir ar unwaith.<br><br>Rwyf yn ffyddiog bod ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi dulliau rheoli ariannol darbodus, diogelu adnoddau’r cyngor a’n galluogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i’r gymuned.” |

| **Swyddog Monitro** | |
|---|---|
| <br>Lynn Ball<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** | "Fel Swyddog Monitro, un o fy swyddogaethau allweddol yw gweithio'n agos gydag aelodau a swyddogion i hyrwyddo llywodraethu da a gwneud penderfyniadau da ar draws y Cyngor.<br><br>Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu cadarn ar waith a'n nod yw sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn adlewyrchu gofynion y fframwaith hwnnw ac yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb ein penderfyniadau.<br><br>Mae meithrin a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol ymhlith aelodau etholedig a swyddogion yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu da." |

DRAFT

# Materion Llywodraethiant a nodwyd

## Cynnydd mewn perthynas â’r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r materion llywodraethiant a nodwyd y llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

| Camau gweithredu a nodwyd i fynd i’r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 1. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol | Trawsnewid | Y dilyn cytundeb gyda CLILC, bydd y Panel Asesu Perfformiad (PAP) yn cael ei gynnal rhwng y 10fed a’r 13eg o Dachwedd, 2025. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu ac mae gwaith ar y gweill i baratoi’r ddogfen gwmpasu ar gyfer y PAP. |
| 2. Nid yw’r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd | Trawsnewid / Adnoddau | Ar hyn o bryd mae’r drydedd linell sicrwydd yn cael ei chofnodi yn erbyn y gofrestr risgiau strategol ar y system 4Risk. Fodd bynnag, yn dilyn newidiadau staffio, mae’r trefniadau ar gyfer mapio’r ffynonellau sicrwydd ar y llinell gyntaf a’r ail linell wrthi’n cael eu hadolygu. Bydd unrhyw newidiadau yn sgil yr adolygiad hwn yn cael eu gweithredu yn ystod 25/26. |
| 3. Rhaid i’r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | Adnoddau | Cafodd y Cynllun Strategol Caffael a’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus ddechrau’r flwyddyn, a derbyniodd dros 100 aelod o’r staff hyfforddiant ar y ddeddf caffael newydd a ddarparwyd yn fewnol. Mae llawlyfr caffael a thempledi hefyd ar gael. Mae Rheolwr Caffael wedi cael ei benodi dros dro yn dilyn trafferthion recriwtio. |

DRAFT

| Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| 4. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | Trawsnewid | Mae'r Cyngor yn dal i recriwtio ar gyfer yr Uned Darparwyr. Yn ystod 2024/25 roedd y cynllun Denu Talent yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Oedolion, yn benodol ceisio recriwtio i swyddi sy'n anodd eu llenwi. Cymerodd pum person ifanc ran mewn profiad gwaith 10 wythnos o hyd, a phenodwyd dau i swyddi parhaol yn dilyn hynny. Adolygwyd y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risgiau'n gysylltiedig â Phobl yn ystod y flwyddyn.<br>Cafodd tudalennau Gyrfaoedd newydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (Swyddi a Gyrfaoedd).<br>Mae pwyslais o hyd ar geisio cadw staff, yn enwedig mewn meysydd â throsiant uchel. Roedd trosiant staff yn 8% yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 9% y flwyddyn flaenorol, ac roedd lefelau cadw staff yn tua 82% ar gyfer 24/25. |
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cafodd yr holl gamau lliniaru i reoli RAAC yn adeiladu'r Cyngor eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.<br>Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn ystod y flwyddyn. Cafodd System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur newydd ei mabwysiadu yn 2024 gyda'r nod o'i defnyddio i reoli asedau, gwaith cynnal a chadw a phrosiectau adeiladu'r Cyngor.<br>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli asedau mân ddaliadau newydd a bwriedir cwblhau'r gwaith yn ystod 2025/26. |
| 6. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | Adnoddau | Llwyddodd y Cyngor i sicrhau grantiau cyfalaf gwerth £47.748m yn ystod 2024/25, sy'n cyfateb i 61% o'r holl gyllid cyfalaf yn 2024/25.<br>Cafodd y CATC ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, ac mae cyfnod y cynllun wedi cael ei ymestyn o 2 i 3 blynedd.<br>Yn ystod y broses o osod y gyllideb yn gynnar yn 2025 cafodd arbedion gwasanaeth eu cynnig er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd modd i arbedion a gafodd eu nodi ond na chafodd eu gweithredu yn 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2026/27. |

DRAFT

| **Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau** | **Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol** | **Diweddariad ar gynnydd** |
|---|---|---|
| | | Mae gwaith ar y gweill ar draws y gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio prosesau er mwyn lleihau costau. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer costau newid wedi cael ei sefydlu i ariannu unrhyw gostau'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau. Mae enghreifftiau o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma'n cynnwys:<br>1. Porth Mynediad i Ddinasyddion – sy'n caniatáu i Drethdalwyr, pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Tai a landlordiaid gael mynediad at eu cyfrifon fel y gallant dderbyn gwybodaeth am eu cyfrif a diweddaru'r Cyngor ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn electronig.<br>2. Incwm Morwrol – i ariannu'r gost o brynu a gosod peiriannau Sglodyn a Rhif Adnabod Personol (Chip & PIN) fel y gall ymwelwyr dalu am wasanaethau â cherdyn ar y traeth.<br>3. Adolygiad Trafnidiaeth – i ariannu'r gost o gynnal adolygiad allanol o ddarpariaeth trafnidiaeth y Cyngor ar draws pob gwasanaeth, gyda'r nod o ganfod newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol am lai o arian. |
| 7. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | Trawsnewid | Mae'r Cynllun Digidol Strategol bellach ar waith gyda'r nod o ddarparu cyfarwyddyd a gweledigaeth glir ynglŷn â TG gorfforaethol yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth y Cyngor o ran darparu gwasanaeth TGCh.<br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'i swyddfeydd a safleoedd.<br>Cwblhawyd asesiad aeddfedrwydd data yn ystod y flwyddyn ac mae gweithgor wrthi'n gweithio ar y camau nesaf i wella'r data yn cynnwys strategaeth data newydd. |

DRAFT

## Gwaith llywodraethu sylweddol arall yn ystod y flwyddyn

Dyma rywfaint o'r gwaith llywodraethu sylweddol a gwblhawyd ac sydd heb ei nodi'n flaenorol

| Materion llywodraethu a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| Adolygiad allanol o'n trefniadau Sgriwtini | Busnes y Cyngor | Fe wnaeth yr Awdurdod Lleol gomisiynu adolygiad allanol o'i drefniadau sgriwtini, a gwblhawyd yng nghyd-destun y fframwaith lleol ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r argymhellion wedi llywio'n rhaglen datblygu sgriwtini. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth.<br><br>Ceir mwy o wybodaeth yn y fan yma Adroddiad Blynyddol Sgriwtini. |
| Datblygu Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd newydd ar gyfer 2025-28 | Adnoddau | Datblygwyd a chymeradwywyd Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd newydd yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae'r strategaeth yn amlinellu gweithgaredd bydd y Cyngor, dan arweiniad y gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2025-28 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), sy'n mynnu bod archwilio mewnol yn gwerthuso'r risg bosib o dwyll a sut y mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120). Hefyd, mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (y Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheoli cyfrifo yn cynnwys mesurau i atal a chanfod gwallau a thwyll. |

DRAFFT

## Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2024/25

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'r broses asesu wedi nodi'r materion llywodraethiant canlynol a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

| Materion llywodraethu a nodwyd | Camau gwella a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain? | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | • Rhoi'r camau a gytunwyd yn y Cynllun Strategol Caffael ar waith | Adnoddau | • Gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwyon a chosbau, camau cyfreithiol a chraffu rheoleiddiol<br>• Niwed i enw da'r Cyngor<br>• Methiant bosib o ran y gwasanaeth | Mawrth 2026 |
| 2. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | • Adolygu, diwygio a gwella'r ymgyrch recriwtio ar gyfer Busnes y Cyngor a'r Uned Darparwyr<br>• Cynyddu lefelau cadw staff mewn meysydd â throsiant uwch, yn enwedig rolau arbenigol a rhai sy'n anodd eu llenwi | Trawsnewid | • Methiant bosib o ran y gwasanaeth<br>• Potensial am brinder talent, bylchau mewn sgiliau a throsiant staff uchel<br>• Cynnydd posibl mewn costau<br>• Niwed i enw da'r Cyngor | Mawrth 2026 |
| 3. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | • Adolygu a chyhoeddi cynllun strategol rheoli asedau mân ddaliadau<br>• Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur<br>• Rhesymoli asedau'r cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | • Cynnydd mewn costau cynnal a chadw cysylltiedig<br>• Toriadau iechyd a diogelwch difrifol posibl os bydd asedau'n dirywio<br>• Methiant bosib o ran y gwasanaeth<br>• Colli cyfleoedd i wella gwasanaethau neu gynhyrchu refeniw | Mawrth 2026 |

DRAFT

| Materion llywodraethu a nodwyd | Camau gwella a nodwyd | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain? | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | • Ennill cymaint o'r grantiau sydd ar gael i'r Cyngor â phosib<br>• Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)<br>• Nodi arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen<br>• Parhau i adolygu a symleiddio prosesau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith cyllidebau is | Adnoddau | • Gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gael i drigolion<br>• Risg o faterion ariannol difrifol<br>• Effaith negyddol ar yr economi leol a chynnydd yn y boblogaeth fregus<br>• Niwed i enw da'r Cyngor<br>• Risg o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru | Mawrth 2026 |
| 5. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | • Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata<br>• Cwmpasu'r galw am system ffôn newydd yng ngweddill yr ysgolion ac adeiladu'r Cyngor nad oedd yn rhan o gam 1 | Trawsnewid | • Gwasanaethau aneffeithiol ac aneffeithlon sy'n defnyddio technoleg sydd wedi dyddio i ddarparu gwasanaethau<br>• Risgiau posibl o ran seiberddiogelwch<br>• Cynnydd mewn costau i gynnal systemau etifeddol hŷn<br>• Niwed i enw da'r Cyngor | Mawrth 2026 |
| 6. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd | • Cynnal adolygiad ar y ffordd orau o adolygu a monitro'r llinell sicrwydd gyntaf a'r ail<br>• Cynnal ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor | Trawsnewid / Adnoddau | • Problemau llywodraethu posib heb eu nodi<br>• Methu gwella perfformiad y Cyngor yn barhaus<br>• Methiant bosib o ran y gwasanaeth<br>• Darpariaeth sicrwydd annigonol neu wedi'i ddyblygu | Mawrth 2026 |

## Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| |
|---|
| Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.<br><br>Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. |

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| **Cyng. Gary Pritchard**<br>**Arweinydd y Cyngor**<br>**Gorffennaf 2025** | **Dylan Williams**<br>**Prif Weithredwr**<br>**Gorffennaf 2025** |

DRAFT

# Atodiad 1

## Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Mae Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da yn y maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Nid yw'r Côd yn rhagnodol ac mae'n seiliedig ar chwe egwyddor sydd wedi eu cefnogi gan safonau penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau gwytnwch ariannol parhaus Awdurdodau Lleol. Y chwe egwyddor rheolaeth ariannol sy'n sail i'r Côd yw:

- Arweinyddiaeth
- Atebolrwydd
- Tryloywder
- Safonau Proffesiynol
- Sicrwydd
- Cynaliadwyedd

Trosir y chwe egwyddor yn ddwy ar bymtheg o safonau Rheolaeth Ariannol (FM) (a ddynodir o A-Q), wedi'u grwpio'n saith adran. Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddangos cydymffurfiaeth lawn â'r Cod erbyn 31 Mawrth 2022.

Yn dilyn archwiliad mewnol o cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r cod yn Ebrill 2020, cynhaliwyd archwiliad pellach ar Wydnwch Ariannol ym mis Tachwedd 2022 i geisio ateb y cwestiwn a ganlyn: A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?

Dywed yr adroddiad:

> **"Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith o fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rheoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol, a hynny o fewn cwmpas ei reolaeth. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros y ddwy flynedd nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol ac anrhagweladwy sydd ohoni.**

Codwyd un 'Mater/Risg', a oedd angen sylw rheolwyr er mwyn cryfhau'r trefniadau yn y maes hwn a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

## Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2024/25 i'r casgliad canlynol –

> ***"Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.***
>
> ***Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.***
>
> ***Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.."***

DRAFT